# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR
a gynhaliwyd ar y 2il Ebrill 2019
am 8.00y.h.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr:- Rowland Jones, Caredig Jones, Meirion Davies, John Davies, Meic Francis, Dewi Rattray, Dylan Edwards.**

**ABSENOLDEBAU:** Richard Davies, Ann Tudor

Rhoddwyd croeso cynnes i gyfarfod Mis Ebrill gan y Cadeirydd Caredig Jones.

Dachraeodd y cyfarfod 8 o'r gloch. Darllenwyd cofnodion Mis Mawrth, cynigwyd eu bod yn gywir gan y Cyng. Rowland Jones ac fe eiliwyd gan y Cyng. Meic Francis.

18/1058 - MATERION YN CODI
1. Atgoffwyd for noson casglu sbwriel nos Fawrth nesaf sef y 9fed Ebrill am 6pm. Mi fydd grabers/bagiau sbwriel/menyg i gael ar gyfer pobol y gymuned.

18/1059 - LLYTHYRON
1. Llythyr oddiwrth Cyngor Ceredigion ynglyn a Tim Porth Y Gymuned. Ofynnwyd os fydd yn bosib i drefnu cyfarfod gyda Cysylltwr ardal Cyngor Cymuned Llanilar er mwyn drafod cyfleoedd sydd ar gael i weithio gyda'n gilydd i elwa o'r dyfoeth a wybodaeth sydd gan y cynhorwyr am ein gymuned leol. Penderfynnwyd adael hyn am y dro nes miss Mehefin/Gofrennaf.
2. Nodyn gwyro Llwybyr Troed 21/39 Llanilar.
3. Llawer o negeseuon Un Llais Cymru a chyflwynwyd gan y Cyng. Meic Francis.

18/1060 - ARIANNOL
1. Llythyron oddiwrth amrywiaeth o elusennau gwahanol yn ofyn am gymorth ariannol. Ar ôl darllen pob cais, penderfynwyd y cynghorwyr cefnogi'r elusennau canlynol: Rhodd o £100 i Rali Clwb Ffermwyr Ifanc Lledrod, £100 tuag at Eisteddfod Cenedlaethol Ceredigion 2020 ac £100 tuag at Treialon Cwn Defaid Rhyngwadol Ceredigion 2020. Roedd y cynghorwyr i gyd yn gytûn.
2. Cyflog y Clerc ar gyfer Miss Mawrth; £133.26 AC Miss Ebrill £133.26. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng. Meirion Davies ac eiliwyd gan y Cyng.Dylan Edwards. Cyfanswm y siec £266.52.

18/1061 – CYNLLUNIO
Nid oes unrhyw gais wedi derbyn

18/1062 - UNRHYW FATER ARALL
1. Noson torri'r fynwent 1st 2019: Nos Fawrth 30 Ebrill am 6.00pm. Croeso mawr i bawb. Cofiwch ddod a Safety Goggles eich hyn.
2. AGM Cyngor Cymuned nos Fawrth 7ed Mai am 7.30pm

Orffenwyd y gyfarfod am 8.40pm